# GWEITHDREFN: Gwaredu Offer Trydanol ac Electronig Gwastraff (WEEE)

**1. Pwrpas:**

1.1. Sicrhau bod offer trydanol ac electronig gwastraff (WEEE) yn cael ei waredu'n briodol

1.2. Sicrhau dyletswydd gofal wrth waredu offer trydanol ac electronig gwastraff

1.3. Egluro gofynion gwaredu offer trydanol ac electronig gwastraff

1.4. Sicrhau bod offer trydanol ac electronig gwastraff yn cael ei ailddosbarthu a/neu ei ailgylchu'n briodol ac mewn modd ecogyfeillgar

**2. Cwmpas:**

2.1. Yr holl offer trydanol ac electronig sy'n eiddo i Brifysgol Aberystwyth, yn cynnwys offer TG.

**3. Diffiniadau:**

3.1. '*Offer trydanol ac electronig* (EEE)': offer sy'n dibynnu ar gerrynt trydanol neu feysydd electromagnetig er mwyn gweithio'n iawn ac offer ar gyfer cynhyrchu, trosglwyddo a mesur cerrynt a meysydd o'r fath ac wedi'u cynllunio i'w defnyddio ar foltedd nad yw'n uwch na 1,000 folt ar gyfer cerrynt eiledol a 1,500 folt ar gyfer cerrynt uniongyrchol (Rheoliadau Offer Trydanol ac Electronig Gwastraff, 2013)

3.2. '*Gwastraff*': unrhyw sylwedd neu wrthrych…y bydd y deiliad yn ei waredu neu'n bwriadu ei waredu, neu sy'n ofynnol i'w waredu (Erthygl 1(a), Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff)

**4. Mathau o Offer Trydanol ac Electronig Gwastraff (WEEE):**

4.1. Bydd categorïau WEEE yn cael eu diweddaru yn 2019
4.1.1. Ceir rhestr anghyflawn o WEEE yn Atodiad 1, yn cynnwys categoreiddio presennol a'r dyfodol

**5. Dull:**

5.1. Rhaid dilyn yr hierarchaeth wastraff (Atodiad 2), yn unol ag Amod 12 Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr), 2011
5.1.1. Dylid cynnig cyfrifiaduron dros ben i'r Adran Gwasanaethau Gwybodaeth

5.2. Rhaid cydymffurfio â gofynion Polisi Rheoli Gwastraff Prifysgol Aberystwyth

5.3. Os oedd ased sydd i'w waredu yn costio mwy na £10,000 yn wreiddiol, rhaid llenwi Ffurflen Gwaredu Ased Sefydlog a'i dychwelyd i'r Swyddfa Gyllid wrth ei waredu



| | | |
|---|---|---|
| **Enw'r Ddogfen:** Gwaredu Offer Trydanol ac Electronig Gwastraff (WEEE): Technoleg Gwybodaeth (IT) | **Dyddiad Cymeradwyo Gwreiddiol:** 11/05/2016 | **Awdur:** Dr Heather Crump |
| **Rhif y ddogfen:** AU-HSE-WEEEP-052016-v1 | **Dyddiad Cymeradwyo Newydd:** | **Adran:** Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd |
| **Cymeradwywyd gan:** Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd | | |

5.4. Bydd Adrannau yn gyfrifol am ddinistrio data ar offer TG WEEE. **Rhaid** i ddata gael ei ddileu o WEEE TG cyn ei waredu er mwyn cydymffurfio â Deddf Gwarchod Data, 1998

5.5. Rhoddir y dewis i adrannau ddileu data trwy:

5.5.1. Gasglu'r meddalwedd perthnasol o Ddesg Gymorth Gwasanaethau Gwybodaeth er mwyn glanhau'r offer TG â llaw, gan ddileu'r holl ddata; neu

5.5.2. Ddefnyddio gwasanaethau'r Adran Gwasanaethau Gwybodaeth i ddileu'r holl ddata o'r offer

5.5.3. Os ceir achos o beidio glanhau offer cyn ei gasglu, bydd Gwasanaethau'r Campws neu'r cludydd awdurdodedig arall yn llofnodi'r ffurflen argraffedig (yn unol ag Adran 5.7.5) i gydnabod casglu, a bydd y Gwasanaethau Gwybodaeth yn llofnodi'r ffurflen eto pan drosglwyddir yr offer i Weithdy Gwasanaethau Gwybodaeth.

5.5.3.1. Bydd Gwasanaethau'r Campws yn sganio'r ffurflen ar fas-data mewnol i gofnodi casglu a throsglwyddo

5.5.3.2. Bydd Gwasanaethau Gwybodaeth yn storio'r offer yn ddiogel a bydd yn cael ei gasglu gan y contractwr lle gellir glanhau gyriannau caled yn ddiogel os oes modd ailddefnyddio'r gyriant caled neu ei ddinistrio mewn peiriant malu ar gyfer ailgylchu deunyddiau.

5.5.3.3. Bydd GG yn cyflwyno copi o'r adroddiad Ased/Dileu i'r Gwasanaethau Campws er mwyn cadarnhau dileu'r data

5.5.3.3.1. Bydd Gwasanaethau'r Campws yn atodi'r dystysgrif hon i'r ffurflen lofnodedig ar y bas-data

5.6. Bydd perchenogion yn gyfrifol am ddadhalogi offer, os bydd angen (e.e. offer labordy)

5.7. Gofynnir i adrannau lenwi'r ffurflen i wneud cais i waredu. Mae'r ffurflen ar gael yma https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/waste-disposal/equipment/

5.7.1. Rhaid i bob rhan o'r ffurflen gael ei llenwi'n briodol hyd eithaf gallu'r Adran

5.7.2. Ar gyfer offer TG, bydd y ffurflen yn nodi'r sefyllfa o ran glanhau data

5.7.3. Bydd y ffurflen yn unigryw ar gyfer yr eitem(au) sy'n cael ei/eu (g)waredu, er mwyn sicrhau trywydd gwastraff archwiliadwy

5.7.4. Ar ôl i'r ffurflen gael ei chyflwyno, anfonir e-bost i Wasanaethau'r Campws, yn gofyn iddynt wneud trefniant gyda'r Adran i gasglu'r offer

5.7.5. Bydd yr unigolyn sy'n cyflwyno'r ffurflen yn derbyn copi PDF o'r cais i waredu, yn awtomatig

5.7.5.1. Rhaid atodi allbrint o'r ffurflen hon at yr offer dan sylw er mwyn sicrhau y bydd yn cael ei waredu'n effeithiol

5.7.5.2. Rhaid i'r Adran lofnodi a dyddio'r allbrint

5.7.5.3. Ni fydd eitemau yn cael eu casglu heb y ffurflen hon

5.7.5.4. Rhaid storio eitemau'n ddiogel ar gyfer casglu

5.7.5.5. Bydd Gwasanaethau'r Campws yn cofnodi'r ffurflen hon ar y bas-data mewnol fel cofnod o gasglu'r eitem i'w waredu. Bydd modd adnabod eitemau ar nodiadau trosglwyddo gwastraff trwy'r rhif cyfresol.

5.8. Bydd Gwasanaethau'r Campws yn sicrhau bod WEEE yn cael ei gasglu'n brydlon ac yn effeithiol ac yn ei storio mewn lleoliadau priodol cyn ei waredu

5.8.1. Hysbysir unigolion priodol o'r trefniadau casglu gan Wasanaethau'r Campws

5.8.2. Cesglir ymhen tua pythefnos yn dilyn yr hysbysiad
5.8.3. Bydd offer TG yn cael ei storio gyda Gwasanaethau Gwybodaeth
5.8.4. Bydd WEEE cyffredinol yn cael ei storio gyda Gwasanaethau'r Campws
5.8.5. Bydd cyfrifoldeb am yr eitem yn trosglwyddo i'r Adran berthnasol (GG/Gwasanaethau'r Campws) pan gaiff ei gasglu

5.9. Rhoddir pob rhyddid i'r Adran sy'n casglu'r WEEE benderfynu ar ei gyrchfan. Cynigir y dewisiadau canlynol
5.9.1. Ei waredu i'w ailgylchu trwy gontractwr
5.9.2. Ei waredu i elusen
5.9.3. Ei ailddefnyddio'n fewnol

5.10. Bydd cwmni dan gontract yn gwacáu cyfleusterau storio'r WEEE yn rheolaidd neu yn ôl yr angen (yn dilyn cyfarwyddyd gan Wasanaethau Gwybodaeth neu Wasanaethau'r Campws)
5.10.1. Bydd y cwmni dan gontract yn dinistrio'r holl WEEE er mwyn sicrhau na fydd unrhyw ddata sy'n weddill, os yw'n berthnasol, yn gallu cael ei adfer, a bydd yn ei waredu'n briodol

5.11. Bydd y contractwr yn darparu nodiadau trosglwyddo gwastraff i Brifysgol Aberystwyth yn nodi'r holl wybodaeth angenrheidiol yn unol ag Amod 34 o'r Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd, 1990
5.11.1. Bydd nodiadau trosglwyddo gwastraff yn cael eu storio'n ddiogel ar SharePoint, gan gyfyngu'r mynediad iddynt i'r aelodau staff perthnasol
5.11.1.1. Dylid cadw nodiadau trosglwyddo gwastraff am o leiaf ddwy flynedd

5.12. Ceir cyfarwyddyd pellach ar gyfer Adrannau sy'n dymuno gwaredu EEE yng Nghwestiynau Cyffredin Gwasanaethau Gwybodaeth Rhif 1587.

5.13. Os oes gan Adran lawer iawn o WEEE ac yn dymuno trefnu ei waredu yn annibynnol, rhaid cydymffurfio at Adrannau Sections 5.7 – 5.10.
5.13.1. Rhaid dilyn Adrannau 5.1 – 5.4 yn ogystal
5.13.2. Rhaid cydymffurfio ag Adran 5.5.3.4

## 6. Atodiad 1

6.1. Atodlen 1 a 3 WEEE
6.1.1. Amlygir mewn coch yr eitemau hynny fydd angen glanhau'r data sydd arnynt

WEEE_asPerRegs.xlsx

7. Atodiad 2

7.1. Hierarchaeth Gwastraff:

**Atal**: defnyddio llai o ddeunydd wrth ddylunio a gweithgynhyrchu, cadw cynnyrch am fwy o amser, ailddefnyddio, defnyddio deunyddiau llai llai peryglus

**Ailddefnyddio**: gwirio, glanhau, trwsio, ailwampio, eitemau cyfan neu ddarnau sbâr

**Ailgylchu**: troi gwastraff yn sylwedd neu gynnyrch newydd, yn cynnwys compostio os yw hynny'n bodloni protocol ansawdd

**Adfer**: treulio anaerobig, llosgi gydag adfer ynni, nwyeiddio a pyrolysis sy'n cynhyrchu ynni a.y.y.b.

**Gwaredu**: tirlenwi a llosgi heb ynni

*Newidiadau i'r drefn*

| *Newid* | *Rheswm* | *Dyddiad* |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |